

Polisi Tywydd Gwael & Phroblemau Teithio

Cynnwys

1	Cyflwyniad a diffiniadau.....	1
2	Egwyddorion.....	1
3	Lle mae'r swyddfa yn aros ar agor yn ystod tywydd gwael/ problemau teithio	1
4	Lle mae'r swyddfa yn cau yn ystod tywydd gwael/ problemau teithio.....	3

1 Cyflwyniadau a diffiniadau

- 1.1 Mae'r polisi hwn yn nodi egwyddorion presenoldeb yn y gwaith yn ystod tywydd gwael a/neu broblemau sylweddol â thrafnidiaeth.
- 1.2 Diffinnir "tywydd gwael" fel cyflwr y tywydd sy'n golygu bod posibilrwydd o oedi wrth deithio, cau lonydd a rheilffyrdd, toriadau pŵer a'r perygl bosibl i fywyd ac eiddo. Mae tywydd o'r fath yn debygol o gael rhybudd melyn neu goch gan y Swyddfa Dywydd.
- 1.3 Diffinnir "problemau sylweddol â thrafnidiaeth" fel problemau a achosir gan dywydd gwael, trychinebau naturiol eraill, streiciau trafndiaeth genedlaethol neu ddigwyddiadau mawr eraill sy'n achosi'r gwasanaeth fethu/canslo, ac nad yw'r problemau hyn wedi'u cynllunio.

2 Egwyddorion

- 1.1 Egwyddorion allweddol y Polisi hwn yw:
 - Sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein gweithwyr;
 - Cynnal gwasanaethau'r OGCC i'n defnyddwyr gwasanaeth cyn belled a bod modd;
 - Bydd yr Ombwdsmon neu Gyfarwyddwr yn penderfynu a yw'r swyddfa'n aros ar agor neu yn cau'n swyddogol oherwydd y broblem.

3 Lle mae'r swyddfa yn aros ar agor yn ystod tywydd gwael/ problemau teithio

- 3.1 Mae disgwyl i weithwyr wneud pob ymdrech i fynychu'r gwaith drwy ddefnyddio dulliau eraill o drafndiaeth (trafnidiaeth gyhoeddus, lift, beic, cerdded, ac ati) os yw hynny'n gwbl ddichonadwy a diogel.

3.2 Os nad ydynt yn gallu mynychu'r gwaith, dylai gweithwyr ffonio eu rheolwr cyn gynted â phosib i roi gwybod iddynt nad ydynt yn gallu cyrraedd y swyddfa. Os nad yw gweithwyr yn gallu cyrraedd eu safle gwaith yn ddiogel, dylent gysylltu â'u Rheolwr cyn gynted â phosibl i drafod yr amgylchiadau. Bydd y pwyntiau canlynol yn cael eu hystyried:

- Y rheswm dros y problem
- Y pellter dan sylw
- Cyflwr y tywydd cyfredol
- Yr amser o'r dydd
- Amgylchiadau unigol y gweithwyr

3.3 Os yw'r problem yn parhau am fwy nag un diwrnod, mae disgwyl i weithwyr siarad yn ddyddiol â'u rheolwr.

3.4 Lle mae'r swyddfa yn aros ar agor, dim ond yr oriau y maent yn gweithio yn y swyddfa (neu gartref os cytunwyd ar hynny) y gall gweithiwr eu hawlio, waeth beth fo'u hamgylchiadau o ran cael eu hoedi neu orfod gadael yn gynnar oherwydd tywydd gwael/problemau â thrafnidiaeth.

3.5 Lle na allai'r gweithwyr fynychu'r gwaith yn y swyddfa neu weithio gartref, rhaid cofnodi'r amser hwn y tu hwnt o'r gwaith fel oriau hyblyg neu wyliau blynyddol. Dylid hyn fod yn rhan o'r drafodaeth â'r rheolwr llinell pan mae'r gweithwyr yn rhoi gwybod iddynt nad ydynt yn gallu mynychu'r gwaith oherwydd tywydd gwael/problemau â thrafnidiaeth.

3.6 Lle na allai'r gweithwyr fynychu'r gwaith oherwydd materion yn ymwneud â gofal plant sy'n codi o gau ysgolion, gall yr amser hwn gael ei gymryd fel absenoldeb heb dâl (yn unol â'r polisi absenoldeb dibynnol), oriau hyblyg neu wyliau blynyddol.

4 Lle mae'r swyddfa yn cau yn ystod tywydd gwael/problemau teithio

- 4.1 Lle penderfynir cau'r swyddfa, caiff y wefan ei ddiweddarau i gynnwys neges "swyddfa ar gau". Bydd y Rheolwyr yn cael eu hysbysu a byddent yn cysylltu â'u staff lle bo modd.
- 4.2 Yn ychwanegol, bydd neges ar linell ffôn y Gwasanaethau Corfforaethol (01656 641157) yn datgan ar ei beiriant ateb fod y swyddfa ar gau. NODWCH: ni fydd neges ar gyfer gweithwyr yn cael ei roi ar y prif rif ffôn, 641150.
- 4.3 **Lle bo modd, dylai gweithwyr weithio gartref** a dylent gofnodi, ar Kelio, yr oriau a weithiwyd. Gall gweithwyr sy'n gweithio gartref ar ddiwrnod lle mae'r swyddfa ar gau weithio hyd at yr uchafswm a ganiateir ar gyfer gweithio gartref (10 awr) a rhaid cofnodi hyn ar Kelio fel gweithio gartref.
- 4.4 Dylai gweithwyr sy'n gweithio gartref ar ddiwrnod neu hanner-diwrnod pan mae'r swyddfa ar gau, ond nad oes ganddynt ddigon o waith i wneud o'u cartref ar gyfer hyd y mae'r swyddfa ar gau, gofnodi ar kelio yr oriau a weithiwyd mewn gwirionedd. Wedi hynny, byddent yn cael eu credydu ag oriau ychwanegol i godi'r cyfanswm i adlewyrchu eu diwrnod/ hanner-diwrnod gwaith arferol (7:24/3:42 ar gyfer gweithwyr llawn amser).
- 4.5 Credyd amser - Bydd gweithwyr a oedd fod i fynychu'r gwaith ar y diwrnod lle mae'r swyddfa ar gau, ac nad oes ganddynt waith i'w wneud o'u cartref, yn cael eu credydu ag oriau yn adlewyrchu hyd yr amser y mae'r swyddfa ar gau (hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn - 3:42 neu 7:42 ar gyfer gweithwyr llawn amser).
- 4.6 Nid yw credydau yn cael eu rhoi i weithwyr sydd wedi trefnu gwyliau blynyddol neu absenoldeb arall yn barod.

